COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 12 EBRILL 2023, AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd M Jones – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | H T Bennett | A R Berrow | F D Bletsoe |
| S J Bletsoe | JPD Blundell | E L P Caparros | N Clarke |
| RJ Collins | HJ David | C Davies | C L C Davies |
| P Davies | S Easterbrook | M J Evans | N Farr |
| P Ford | J Gebbie | W R Goode | RM Granville |
| H Griffiths | S J Griffiths | D T Harrison | M L Hughes |
| D M Hughes | RM James | P W Jenkins | M R John |
| W J Kendall | M Lewis | J E Pratt | E Richards |
| R J Smith | JC Spanswick | I M Spiller | T Thomas |
| G Walter | A Wathan | A Williams | AJ Williams |
| HM Williams | I Williams | MJ Williams | R Williams |
| E D Winstanley | T Wood | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

MJ Kearn, J Llewellyn-Hopkins, RL Penhale-Thomas a/ac JH Tildesley MBE

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Nicola Echanis | Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Helen Hammond | |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

118. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Fe wnaeth y Cynghorydd H Bennett ddatgan buddiant personol yn eitem 6 ar yr Agenda fel Aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, drwy ei gwaith.

119. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwywyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Cyngor dyddiedig 1 Mawrth 2023 a 15 Mawrth 2023 fel cofnodion gwir a chywir, yn amodol ar ddiwygio tudalen 11 o gofnodion 1 Mawrth, sef hwnnw ar frig y dudalen, lle cyfeirir at 'yr oedd Hawliad Cyflog yr Undeb Llafur ar gyfer staff yn annheg', bod hwn yn cael ei newid i 'deg'.

120. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

**Y Maer**

Gobeithio i chi i gyd fwynhau gwyliau'r Pasg gyda theulu a ffrindiau.

Mae'n adeg arbennig o braf o'r flwyddyn i mi fy hun lle rydw i'n hoffi gweld golau'r haul a chennin Pedr yn ffynnu ar draws ein holl gymunedau. Nodyn amserol i'n hatgoffa y bydd yr haf gyda ni cyn bo hir.

Ers ein cyfarfod llawn diwethaf o'r Cyngor, cefais y pleser unwaith eto o gwrdd â rhai pobl anhygoel a nodedig yn ein Bwrdeistref Sirol.

Roedd rhai enghreifftiau yn cynnwys, dathliadau pen-blwydd Mrs Helena Charles BEM, a ddathlodd ei phen-blwydd yn 105 yn ei chymuned enedigol ym Mlaengarw. Gwraig wirioneddol ryfeddol a rannodd atgofion am oes yng Nghwm Garw. Mae'n debyg mai Mrs Charles yw'r person hynaf yn ein Bwrdeistref Sirol, ond rydw i'n siŵr y caf fy nghywiro os nad ydy hyn yn iawn.

Cyfarfûm â Grŵp Ymwybyddiaeth o Hunanladdiad Cwm Ogwr a chefais y pleser o ddyfarnu Tystysgrif y Maer i'w aelodau am eu gwasanaeth i'r gymuned. Enwebwyd y grŵp ar gyfer gwobr o'r fath gan Gyngor Cymuned Cwm Ogwr.

Roedd yn brofiad gostyngol cwrdd ag aelodau'r grŵp, rhai ohonynt hwy eu hunain wedi profi trawma o ganlyniad i hunanladdiad. Roedd gwrando ar eu profiadau a gweld â'm llygaid fy hun eu ffocws anhygoel a'u hagwedd gadarnhaol tuag at helpu eraill sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl yn anhygoel.

Roedd hi hefyd yn foment arbennig o falchder i fynychu Seremoni Cyhoeddi ein Huchel Siryf newydd ar gyfer Morgannwg Ganol, yr Athro Jean White.

Roedd hwn yn achlysur braf iawn i fod yn dyst i'r Cyhoeddiad. Rydw i'n siŵr y bydd y Siambr gyfan yn ymuno â mi i ddymuno'r gorau i'r Athro White yn ei thymor o ddeuddeng mis yn y swydd.

Hoffwn hefyd achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Uchel Siryf Maria Thomas, sydd wedi dod i ddiwedd ei thymor, am ei chefnogaeth i'r Fwrdeistref Sirol yn ystod ei thymor yn y swydd. Roedd yn bleser cael mynd gyda Maria a gweithio gyda hi mewn llawer o ddigwyddiadau dinesig yn y Fwrdeistref Sirol a thu hwnt.

Cefais y fraint hefyd o groesawu'r Dywysoges Anne, Ei Huchelder Brenhinol y Dywysoges Frenhinol, i gyfleuster Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr yn Stryd y Parc Pen-y-bont ar Ogwr.

Roedd y digwyddiad, dan arweiniad Helen Pitt, rheolwr Canolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr, yn dangos pa mor hanfodol yw'r gwasanaeth mae Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr yn ei roi i ofalwyr di-dâl. Roedd yn amlwg bod gofalwyr di-dâl yn gwneud cymaint o wahaniaeth i'n cymunedau, yn aml mewn sefyllfaoedd anodd iawn. Roedd yr egni a'r balchder yn y ganolfan i'w deimlo.

Diolch yn fawr iawn i holl dîm Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr. Rydw i'n siŵr y bydd y siambr gyfan yn parhau i gefnogi eich ymgysylltiad a'ch gwasanaeth hanfodol i'r rhai mwyaf agored i niwed.

Profiad eithaf unigryw a'r tro cyntaf i mi, oedd bod yn westai anrhydeddus ar ymweliad â Mosg Dar-Ui-Isra yn Heol Wyeverne yng Nghaerdydd i rannu Pryd o Fwyd Ramadan.

Roedd hwn yn brofiad anhygoel, yn enwedig pan ofynnwyd i mi annerch y gynulleidfa.

Cyfarfûm â chymaint o bobl hyfryd a mwynhau'r cyflwyniadau amrywiol ar ystyr Ramadan sy'n amser cysegredig ac yn ddathliad allweddol yn y calendr Islamaidd.

Hoffwn ddiolch yn bersonol i Dr Yasim Khan am ei chroeso a'i chwmni yn ystod ein pryd gyda'r nos.

Yn olaf, mae rhai enwau yn dal ar goll o Restr y Dreigiau. Mae'n £1 i enwebu enw ar gyfer y Ddraig, a bydd yr holl elw a dderbynnir yn mynd tuag at Elusen y Maer.

Fel eich Maer a Chadeirydd y Cyngor llawn, gofynnaf ichi gyfrannu os gallwch.

**Y Dirprwy Arweinydd ac Aelod o'r – Gwasanaethau Cymdeithasol**

Bydd yr Aelodau'n gwybod bod gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr hanes cryf o hybu pwysigrwydd gofal maeth, ac am ein hymdrechion ers amser maith, ac sy'n parhau, i recriwtio gofalwyr maeth newydd.

Rydym ar fin mynd â hyn i'r lefel nesaf drwy geisio cael yr achrediad o fod yn Gyflogwr Cyfeillgar i Faethu.

Wedi'i chreu gan brif elusen faethu'r DU, Rhwydwaith Maethu, mae hon yn safon sy'n cael ei chyflwyno i sefydliadau sy'n gallu dangos eu cefnogaeth i faethu a phobl sy'n gweithredu fel gofalwyr maeth.

I gefnogi hyn, maent wedi datblygu rhaglen fydd, ar ôl ei chwblhau, yn gweld sefydliad oedd yn cymryd rhan yn mabwysiadu polisi Cyfeillgar i Faethu.

Mae hyn yn sicrhau bod staff, sydd hefyd yn gweithredu fel gofalwyr maeth, yn gallu gweithio'n hyblyg lle bo'n bosibl ac yn gallu cael hyd at bum niwrnod o absenoldeb ar gyfer materion gofal maeth, megis cynorthwyo plentyn i setlo yn ei gartref newydd, neu fynychu hyfforddiant perthnasol sy'n eu cefnogi yn eu rôl o faethu.

Mae hwn yn gam pwysig i'r Cyngor ei gymryd gan fod angen inni arwain drwy esiampl a dangos i gyflogwyr a sefydliadau eraill ei bod yn bosibl bod yn weithiwr effeithiol ac yn ofalwr maeth effeithiol yr un pryd. Mae arnom hefyd eisiau helpu i dorri'r myth na chaniateir i unigolion weithio os ydynt yn dod yn ofalwyr maeth.

Bydd y symudiad hwn yn cefnogi ein hymdrechion ni ein hunain i recriwtio gofalwyr maeth newydd a all gynnig cefnogaeth hanfodol o ddydd i ddydd, cariad a sefydlogrwydd i blant, a gweithredu fel model rôl cadarnhaol.

Os oes ar aelodau eisiau gwybod mwy, mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan Maethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr.

Hoffwn hefyd ailadrodd y cynnig i'r Aelodau a fynychodd yr hyfforddiant mewn perthynas â Gofal Maeth, y cewch chi i gyd grys-T i'w wisgo i'r gampfa ac ati, gan y bydd hyn yn hyrwyddo ac yn hysbysebu Gofal Maeth Cymru. Mae rhoi Gofal Maeth yn brofiad gwerth chweil a byddwn hefyd yn annog unrhyw aelod o'r cyhoedd i edrych i mewn i gyfle o'r fath. Rwyf yn ei gael yn brofiad hynod o braf 35 mlynedd yn ddiweddarach ers ymgymryd â rôl o'r fath.

**Aelod o'r Cabinet - Adfywio**

Bydd yr Aelodau wedi sylwi ar y newyddion diweddar am Lywodraeth Cymru yn prynu darnau allweddol o dir ym Mhorthcawl sy'n hanfodol i'r Cyngor i adfywio ardal y glannau.

Mae'r gwerthiant wedi cynnwys buddiant rhydd-ddaliadol yn safle Parc Adloniant Traeth Coney a'r buddiant llesddaliadol mewn darn o dir cyfagos a adwaenir yn lleol fel 'parc yr anghenfilod' gan iddo gael ei ddefnyddio gynt i arddangos cerfluniau o ddinosoriaid.

Arwyddocâd hyn, wrth gwrs, yw ei fod wedi rhyddhau amser ac adnoddau'r Cyngor ac wedi ein galluogi i ganolbwyntio mwy o'n hadnoddau ar wneud y gorau o fanteision yr adfywiad.

O ganlyniad, rydym yn ceisio cynyddu nifer y tai fforddiadwy a fydd ar gael fel rhan o'r prosiect hwn.

Mae caffael y ddau safle yn golygu bod y parth 20 hectar cyfan sydd ei angen ar gyfer y cam hwn o'r adfywiad bellach wedi cael ei ddatgloi.

Mae hwn yn arwydd mawr o hyder gan Lywodraeth Cymru, ym Mhorthcawl fel lleoliad a chymuned, ac yng nghynlluniau adfywio'r Cyngor.

Byddwn yn awr yn ceisio gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i adfywio'r ardal yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol a hefyd y Strategaeth Creu Lleoedd ar gyfer Porthcawl.

Byddaf yn dod â mwy o newyddion ichi wrth i hyn ddatblygu ymhellach.

**Aelod o'r Cabinet – Addysg**

Efallai y bydd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn gwybod bod nifer o ysgolion lleol wedi cael eu hasesu'n ddiweddar gan arolygwyr Estyn ac wedi cael eu canmol am gefnogi dysgwyr lleol.

Mae ysgolion cynradd Afon y Felin, Brynmenyn a Chorneli wedi cael eu harolygu, a barnwyd bod pob un ohonynt yn llwyddiannus am ddangos cynnydd digonol ac nad oes angen unrhyw gamau dilynol.

Yn ystod pandemig Covid-19, cafodd pob ysgol ei heithrio o arolygiadau Estyn am gyfnod o ddwy flynedd, oedd yn ymestyn o fis Mawrth 2020 hyd fis Chwefror 2022.

Tra roedd hynny mewn grym, datblygodd Estyn weithdrefnau arolygu newydd sy'n canolbwyntio ar ba mor dda y mae darparwyr yn cynorthwyo plentyn i ddysgu, yn hytrach na defnyddio graddau crynodol fel a ddefnyddid gynt.

Mae'r fformat adrodd presennol bellach yn defnyddio un o bedwar categori wrth arolygu ysgol, sef dim dilyniant, adolygiad Estyn, angen gwelliant sylweddol, ac angen mesurau arbennig.

Rwyf yn siŵr y bydd ar yr aelodau eisiau ymuno â mi i longyfarch y tair ysgol ar eu llwyddiant yn yr arolygu.

Mae arnaf hefyd eisiau llongyfarch Harri Evans, naw oed, o Ysgol Gynradd Plasnewydd, ar ei ddyluniad poster llwyddiannus sy'n cael ei ddefnyddio fel canolbwynt yr ymgyrch Caru a'i Chadw'n lân ym Maesteg.

Mae dyluniad Harri yn cael ei ddangos ar bosteri, arwyddion bin a physt lampau ledled Cwm Llynfi i gefnogi'r ymgyrch gwrth-sbwriel. Mae ei boster yn dangos Neuadd y Dref rhestredig Gradd II Maesteg, ac Afon Llynfi, gyda neges glir i beidio â thaflu sbwriel yn anghyfrifol, ond ei roi yn un o finiau'r dref.

Fel rhan o'r ymgyrch, mae disgyblion wedi cymryd rhan mewn gweithdai rhyngweithiol a gyflwynwyd gan Ailgylchu ADA yn ogystal â sesiynau codi sbwriel a gweithdai seiliedig ar wyddoniaeth a hwyluswyd gan NatureQuest.

Mae'r ymgyrch 'Caru a'i Chadw'n lân!' eisoes wedi bod yn llwyddiant mawr mewn ardaloedd fel Porthcawl, Bracla, Cwm Ogwr, Cwm Garw a'r Pîl, Mynydd Cynffig a Chefn Cribwr.

Rwy'n siŵr y bydd hyn yr un mor llwyddiannus yn ardal Maesteg, yn enwedig gyda phoster Harri i'w chynrychioli.

**Aelod o'r Cabinet – Cymunedau**

Yn ddiweddar, cwblhawyd gwaith glanhau gennym ar ran 10 milltir o'r A48 i gael gwared ar sbwriel oedd wedi cael ei daflu o geir wrth fynd heibio, ac oedd wedi cronni ar hyd ymyl y ffordd, mewn coed a llwyni ar ochr y ffordd.

Casglodd ein staff fwy na 550 o fagiau yn ystod y ddau ddiwrnod cyntaf o gasglu yn unig.

Erbyn diwedd yr wythnos, roedd cyfanswm o 1,200 o fagiau wedi cael eu llenwi â sbwriel oedd wedi'i daflu, sy'n cyfateb i 120 o fagiau am bob milltir o'r ffordd a lanhawyd.

Fe wnaeth ein staff hefyd dynnu bron i dair tunnell a hanner oddi ar y llwybr o bethau oedd wedi eu tipio'n anghyfreithlon. Roedd hyn yn cynnwys soffas, cadeiriau ac eitemau eraill, o ddodrefn i deiars treuliedig, paledi pren a gwastraff adeiladwyr.

Oherwydd yr angen i greu amgylchedd gwaith diogel, bu'n rhaid defnyddio cerbydau oedd yn symud yn araf i amddiffyn rhag ardrawiad a bu'n rhaid cau rhannau o'r llwybr ar dreigl yn lôn sengl, oedd yn golygu bod cost y glanhau yn fwy na £6,000 o bunnoedd.

Gallai'r arian hwn fod wedi cael ei wario'n well ar ddarparu gwasanaethau eraill pe bai pobl wedi dewis mynd â'u sbwriel adref a chael gwared arno mewn ffordd gyfrifol.

O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi defnyddio'r ymarferiad fel cyfle i roi cyhoeddusrwydd i oferedd gollwng sbwriel, gan fod y bobl sy'n gwneud hyn, yn y pen draw, yn eu taro hwy eu hunain a threthdalwyr eraill yn eu pocedi.

Ar adeg pan mae cyllidebau'n cael eu gwasgu a'r argyfwng costau byw yn pwyso'n galed, ein neges yw i bobl gymryd cyfrifoldeb am eu sbwriel eu hunain a'i ailgylchu a pheidio â gadael i drethdalwyr godi'r bil am ddelio â'u llanast.

Mae hwn yn fater y byddwn yn ceisio rhoi mwy o gyhoeddusrwydd iddo yn y dyfodol, a byddaf yn dod â mwy o fanylion ichi yn fuan.

**Aelod o'r Cabinet – Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol**

Mae sylw diweddar yn y cyfryngau wedi rhoi amlygrwydd i waith sy'n cael ei wneud i wella cymunedau lleol drwy wneud mannau problemus ar gyfer fandaliaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fwy deniadol.

Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy gomisiynu artistiaid graffiti proffesiynol i beintio golygfeydd a delweddau dyrchafol ym mhob lleoliad, i gyd wedi eu bwriadu i godi ysbryd ac annog mwy o ymdeimlad o falchder cymunedol.

Hyd yn hyn mae wedi gwella ymddangosiad isffyrdd sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd fel Merthyr Mawr, Bracla a Broadlands, ac er bod y sylw yn y cyfryngau hyd yma wedi canolbwyntio'n bennaf ar yr agwedd hon, rwy'n credu bod gan yr Aelodau efallai ddiddordeb mewn gwybod bod rheswm pwysicach y tu ôl i'r gwaith.

Mae'r cyfan yn rhan o ymgyrch Negeseuon Cadarnhaol, prosiect sy'n ceisio mynd i'r afael â fandaliaeth atgas a sloganeiddio sy'n creu rhwygiadau drwy ei droi'n gelf syfrdanol y gall y gymuned gyfan ei mwynhau.

Wedi cael ei drefnu gan ein Partneriaeth Diogelwch Cymunedol ein hunain a thîm Cydlyniant Cymunedol Bae'r Gorllewin, mae'r prosiect wedi cynnwys gweithio gyda staff y Cyngor i nodi mannau problemus.

Mae gwrth-hanesion addas wedi cael eu datblygu mewn partneriaeth â grwpiau lleol fel Cylch Awduron Pen-y-bont ar Ogwr, ac mae gwaith celf newydd wedi cael ei ddylunio gan artistiaid graffiti fel Another Day, Another Spray a THEW Creative.

Er enghraifft, dewiswyd neges ganolog 'Gobaith' ar gyfer isffordd Merthyr Mawr, a dewiswyd 'natur' ar gyfer isffordd ym Mracla.

Mae'r ddau wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'r gymuned leol ac wedi tynnu llawer iawn o ganmoliaeth a sylw am yr effaith gadarnhaol, drawsnewidiol y maent yn ei chael.

Nid oes lle i gasineb ac ymrannu ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, nac yn unman arall.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi helpu i wneud y prosiect ysbrydoledig hwn yn llwyddiant ac anogaf unrhyw Aelod nad yw eisoes wedi gwneud hynny i edrych yn fanylach.

**Aelod o'r Cabinet – Adnoddau**

Hoffwn ofyn unwaith eto i'r Aelodau annog eu hetholwyr i fod ar eu gwyliadwriaeth rhag y sgamiau diweddaraf sy'n ceisio darbwyllo deiliaid tai i roi arian neu drosglwyddo gwybodaeth gyfrinachol.

Gwelodd cyfnod clo'r pandemig y troseddwyr sydd y tu ôl i'r sgamiau hyn yn dod yn fwyfwy creadigol ac mae'n ddrwg gennyf adrodd ein bod yn parhau i dderbyn cwynion ac adroddiadau gan breswylwyr pryderus.

Mae'r sgam mwyaf cyffredin yn parhau i gynnwys galwad ffôn ffug yn hysbysu deiliaid tai bod ad-daliad yn ddyledus iddynt ar eu taliadau treth gyngor.

Mae'r sgamwyr yn gofyn am fanylion cyfrif banc cyfrinachol er mwyn trefnu i ad-daliad gael ei dalu, ond mae dioddefwyr y sgam hwn yn canfod yn ddiweddarach bod eu cyfrifon banc wedi cael eu hysbeilio.

Rydym hefyd yn derbyn cwynion gan bobl sydd wedi cael cynnig ad-daliad ffug ar eu biliau dŵr, trydan neu nwy.

Ni fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr byth yn ffonio deiliad tŷ i ofyn iddo ddarparu manylion cyfrif banc dros y ffôn.

Dylai unrhyw un sy'n teimlo eu bod wedi dioddef sgam o'r fath gysylltu â'i fanc ar unwaith a rhoi gwybod i'r Heddlu drwy ffonio 101.

Fel bob amser, mae mwy o gyngor ar sut y gall pobl amddiffyn eu hunain rhag sgamiau ar gael ar wefan y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

**Y Prif Weithredwr**

Bydd yr Aelodau'n cofio ichi gymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer y cyfnod 2023 i 2028 yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor llawn.

Yn dilyn hynny, aethpwyd â'r cynllun i ffwrdd ar gyfer gwaith dylunio a chyfieithu pellach, a'i baratoi ar gyfer lansiad cyhoeddus.

Mae'n bleser gennyf eich hysbysu bod hyn bellach wedi'i gwblhau, a'n bod yn paratoi i lansio'r cynllun corfforaethol newydd yn gyhoeddus yr wythnos nesaf.

Gan ddwyn yr enw 'Cyflawni Gyda'n Gilydd', mae'r cynllun yn arddangos dull newydd ffres o amlinellu sut rydym yn bwriadu darparu gwasanaethau hanfodol, gweithio ochr yn ochr â phobl leol a phartneriaid, a chynnal busnes dros y bum mlynedd nesaf.

Wedi ei gynllunio'n benodol i fod yn fwy hygyrch ac yn haws i bobl ymgysylltu ag ef, cafodd ei gynhyrchu gan ddefnyddio adborth gan drigolion o bob oed a chefndir, defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau'r cyngor, aelodau etholedig, sefydliadau partner, awdurdodau lleol eraill a mwy.

Rhydd y Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2023-28 sail glir, wybodus a pherthnasol i ni ar gyfer sicrhau y gallwn barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol tra'n cwrdd â'r heriau niferus sydd o'n blaenau.

Dros yr ychydig wythnosau nesaf, byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd pellach i dynnu sylw at wahanol agweddau o'r cynllun, gan gynnwys ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol, a bydd aelodau'n derbyn e-bost yn cynnwys mwy o wybodaeth a hyperddolen i'r cynllun ei hun.

Gobeithiaf y bydd yr aelodau'n cefnogi'r ymgyrch gyhoeddusrwydd hon, ac y byddwch yn annog eich etholwyr i gael mynediad at y cynllun a'i ddarllen, ac ystyried sut y gallant hwythau hefyd gynnig adborth a helpu i lunio'r ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau yn y dyfodol.

121. <u>DERBYN CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD</u>

Byddwch wedi gweld adroddiadau newyddion am gynulliad anghyfreithlon dros benwythnos gŵyl banc y Pasg, ar Ystad Ddiwydiannol Cynffig ym Margam, sy'n ffinio â Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Rhoddodd Heddlu De Cymru orchymyn cyhoeddus i gyfarwyddo pobol i adael yr ardal.

Am resymau diogelwch, cafodd ffyrdd eu cau ar fyrder a chynghorwyd pobl i beidio â mynychu'r cyfarfod ar droed nac mewn cerbydau.

Mae ymateb i gynulliad anghyfreithlon o'r maint ac o natur hwn yn cael effaith ar ein gwasanaethau brys, timau priffyrdd a chriwiau glanhau, a gafodd eu galw allan yn annisgwyl ar Sul y Pasg.

Hoffwn ddiolch i'r gymuned leol am eu hamynedd a'u cefnogaeth ynghyd â chydweithwyr yn Heddlu De Cymru, Cyngor Castell-nedd Port Talbot ac asiantaethau partner eraill a weithiodd gyda'i gilydd i ymdrin â'r sefyllfa a sicrhau bod pobl yn gadael y safle'n ddiogel.

Cawsom hefyd wybod dros y penwythnos fod nifer o garafanau wedi parcio'n anghyfreithlon ar gaeau chwarae Rest Bay ym Mhorthcawl. Fe wnaethom weithredu'n gyflym ac ar y cyd â Heddlu De Cymru, cyflwynwyd hysbysiad yn gofyn i'r carafanau adael y safle. O dan y gyfraith, mae'n rhaid i gynghorau ddilyn proses benodol ac mae'n ofynnol iddynt gynnal asesiadau gwasanaethau cymdeithasol a chadarnhau nad oes unrhyw faterion lles cyn y gellir cyflwyno hysbysiad. O ganlyniad i'r ymateb yma, gadawodd y carafanau'r safle ar y dydd Llun.

Mae deddfwriaeth newydd gan Lywodraeth Cymru yn golygu, o 17 Medi 2023, y bydd y terfyn cyflymder cenedlaethol yn disgyn o 30mya i 20mya ar ffyrdd cyfyngedig.

Bydd yr Aelodau'n gwybod oddi wrth y papur briffio y maent wedi ei dderbyn mai nod y symudiad yw lleihau anafiadau ar y ffyrdd, cynnig amgylchedd mwy diogel i annog beicio neu gerdded, yn ogystal â lleihau llygredd sŵn.

Mae ymarfer ymgysylltu cyhoeddus yn mynd ymlaen ar-lein ar hyn o bryd ynglŷn ag eithriadau lleol i'r gostyngiad o 30mya i 20mya a bydd yn parhau ar agor tan 24 Ebrill.

Cefais lythyr o gysur gan y Dirprwy Weinidog dros Newid yn yr Hinsawdd yn Llywodraeth Cymru, Lee Waters, ynghylch cyllid ar gyfer gweithredu'r terfyn cyflymder is.

Derbyniais gadarnhad hefyd fod yr ymgynghoriad a gynlluniwyd ynghylch problem anodd 'parcio ar y palmant' wedi cael ei ohirio tan y flwyddyn nesaf.

Mae hyn yn dilyn adborth gan Arweinwyr Cynghorau yn dweud bod angen canolbwyntio mwy yn gyntaf ar weithredu'r gofynion terfyn cyflymder cenedlaethol newydd, ac mae'n dda gennyf weld bod y dirprwy weinidog wedi gwrando ar ein pryderon.

Er nad yw parcio ar balmentydd yn anghyfreithlon yng Nghymru ar hyn o bryd oni bai bod cerbyd yn achosi rhwystr, mae'r Alban yn y broses o wahardd yr arferiad, ac mae eisoes yn anghyfreithlon yn Llundain.

Mae elusennau fel Strydoedd Byw Cymru a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion wedi dadlau ers tro bod cadw palmentydd yn glir o gerbydau yn hanfodol i bobl ddall a rhannol ddall, a hefyd ar gyfer pobl â phroblemau symudedd a allai gael eu gorfodi i fynd allan i'r ffordd i gael o gwmpas y cerbyd.

Byddwn yn dod â rhagor o fanylion i chi pan fydd yr ymgynghoriad yn cael ei ail-lansio yn ddiweddarach yn 2024.

Yn ei lythyr, cadarnhaodd y Gweinidog hefyd estyniad byr i'r Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau hyd at ddiwedd tymor yr haf. Trefnodd y cyfarfod gyfarfod a oedd yn cynnwys CLILC, cynrychiolwyr y diwydiant bysiau, a Thrafnidiaeth Cymru. Cytunwyd bod y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau (BES) presennol wedi rhedeg ei gwrs ac mae ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth i ddod o hyd i'r ffordd orau bosibl ymlaen.

Yn olaf, bydd y Brenin Charles III yn cael ei goroni ddydd Sadwrn 6 Mai, ac mae gŵyl y banc wedi cael ei chyhoeddi i helpu i nodi'r achlysur ar ddydd Llun 8 Mai.

Bu preswylwyr yn dod at ei gilydd i drefnu partïon stryd i nodi digwyddiadau brenhinol neu ddigwyddiadau cenedlaethol eraill wedi bod yn draddodiad Prydeinig erstalwm, a bydd y coroni'n cynnig cyfle gwych i gymunedau ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ddod at ei gilydd a chynnal dathliad gyda chymdogion.

I gynorthwyo trigolion sy'n dymuno gwneud hyn, mae'r Cyngor wedi cynhyrchu tudalen we, cam wrth gam, sy'n cynnig cyngor ymarferol a fwriadwyd i alluogi pobl i ddathlu'n ddiogel tra hefyd yn galluogi llwybrau allweddol i aros ar agor.

Mae'r dudalen we yn cynnwys awgrymiadau sy'n amrywio, o fanteision cynllunio'n gynnar neu sicrhau bod cymorth cyntaf ar gael i wneud cais am drwyddedau alcohol ac adloniant neu ofyn am gau ffordd.

Er nad oes tâl am wneud cais i gau ffordd dros dro, efallai y bydd aelodau'n dymuno atgoffa trigolion bod yn rhaid i bob cais gael ei gyflwyno 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad y digwyddiad arfaethedig.

Mae manylion llawn ar gael ar wefan y Cyngor.

122. <u>Y CYNLLUN LLESIANT AR GYFER CWM TAF MORGANNWG</u>

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad, a'i ddiben oedd gofyn am gymeradwyaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i Gynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Cwm Taf Morgannwg.

Cadarnhaodd fod newidiadau i ôl troed y bwrdd iechyd wedi creu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr. Cytunwyd y dylai'r ddau BGC oedd yn cwmpasu'r ardal honno, uno i ddod yn un BGC er mwyn lleihau dyblygu a galluogi cydweithio mwy effeithiol i wella llesiant pobl yn yr ardal.

Ychwanegodd, yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun Llesiant, y bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf a Phen-y-bont ar Ogwr yn uno i ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg.

Dywedodd y Prif Weithredwr mai thema gyffredinol y Cynllun Llesiant yw 'Cwm Taf Morgannwg Mwy Cyfartal' sy'n dylanwadu ar bob agwedd ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dangosodd yr Asesiad Llesiant fod gan gymunedau Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf lawer i fod yn falch ohono. Fodd bynnag, nid yw pob cymuned yn cael mynediad teg at gyfleoedd ac maent yn wynebu heriau gwahanol sy'n effeithio ar lesiant.

Mae gan y Cynllun Llesiant sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad ddau amcan ac amlinellwyd y rhain ym mharagraff 4.3 yr adroddiad.

Mae'r Cynllun Llesiant yn gwneud pump ymrwymiad ar gyfer y ffordd y bydd y BGC sengl yn gweithio a'r rhain fydd yr egwyddorion craidd ar gyfer y BGC, fydd yn arwain ac yn herio gweithgaredd ar draws strwythur y BGC. Dangoswyd yr ymrwymiadau hyn ym mharagraff 4.5 yr adroddiad.

Yna cyfeiriodd y Prif Weithredwr at yr ymgynghoriad 12 wythnos a gynhaliwyd ynglŷn â'r Cynllun drafft terfynol, oedd yn cynnwys arolwg ar-lein, a ddenodd 238 o ymatebion.

Daeth y Prif Weithredwr â'i gyflwyniad i ben, drwy gadarnhau yn ogystal â'r ffaith fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cymeradwyo eu cynllun llesiant ar y cyd fod yn rhaid i'r chwe phartner statudol hefyd gymeradwyo'r cynllun i'w gyhoeddi.

Y partneriaid statudol yw:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Cyfoeth Naturiol Cymru

Gofynnodd aelod a oedd bwriad i'r Cynllun fod yn gwbl hygyrch i bawb, gan nad oedd y copi oedd gerbron y Cyngor yn cyfarfod â'r holl ofynion hygyrchedd angenrheidiol.

Cadarnhaodd Swyddog y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) mai dyma fyddai'r copi, trwy Dîm Dylunio'r Cyngor.

Dywedodd aelod, gan gyfeirio at sylfaen dystiolaeth yr AEA fod y ddogfen yn nodi bod 238 o ymatebion i'r arolwg ar-lein mewn perthynas â'r broses ymgynghori. Roedd sesiynau ymgysylltu pellach hefyd wedi cael eu cynnal mewn rhai sefydliadau yr ymwelwyd â hwy gan y cyhoedd yn y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys yn Llyfrgell Sarn. Gofynnodd faint oedd wedi mynychu mewn perthynas â'r olaf.

Cadarnhaodd Swyddog y BGC nad oedd ganddi'r lefelau presenoldeb penodol ym mhob un o'r safleoedd ymgynghori. Fodd bynnag, roedd canlyniadau'r holl sesiynau ymgysylltu wedi cael eu bwydo i mewn i'r arolwg ar-lein. Ychwanegodd mai'r bwriad oedd paratoi adroddiad manylach mewn perthynas â'r sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ehangach cyffredinol.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd am i rai manylion pellach gael eu rhannu mewn perthynas â threfniadau llywodraethu'r BGC, i gynnwys manylion ynglŷn ag atebolrwydd a threfniadau cyllid. Pe bai'r wybodaeth hon ar gael i'r aelodau, byddai ganddynt well dealltwriaeth o bwy sy'n gyfrifol am beth yn y drefn gyffredinol.

Cytunai'r Prif Weithredwr y byddai'n ddefnyddiol cylchredeg rhagor o wybodaeth am y BGC i'r holl aelodau, gan gynnwys pwy sy'n cael ei gynrychioli ar y corff hwn o ran sefydliadau, rhanddeiliaid a phartneriaid statudol ac yn y blaen, gan gynnwys ei gylch gorchwyl a'i nodau ac amcanion.

Cyfeiriodd aelod at Safonau'r Gymraeg a gofynnodd am rywfaint o sicrwydd y byddai'r Cynllun sy'n cefnogi'r BGC ar gael mewn fformat dwyieithog.

Dywedodd yr Arweinydd y câi hwn, yn unol â holl brif ddogfennau strategol CBS Pen-y-bont ar Ogwr, ei gynhyrchu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg hefyd.

Gofynnodd aelod am sicrwydd y byddai'r BGC yn cyd-fynd â rhai o gynlluniau a pholisïau mawr eraill y Cyngor/ei bartneriaid, megis er enghraifft, y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr mai felly y byddai.

Am drafodaeth bellach ynghylch yr eitem hon, cliciwch yma

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Cynllun Llesiant yn Atodiad 1 yr adroddiad ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg.

123. DERBYN Y CWESTIYNAU CANLYNOL GAN:

**Y Cynghorydd Tim Wood i Aelod y Cabinet – Adfywio**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi gwario swm sylweddol o arian cyhoeddus, yn gyntaf yn cynnal ymgynghoriad ac yna'n adrodd ac yn ymchwilio i ailagor rhan fechan o Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr i draffig.

Yr ymgynghoriad hwn yn ôl yn 2016 ddenodd yr ymgysylltiad cyhoeddus mwyaf yn hanes y cyngor hwn ac roedd y cyhoedd yn frwd eu cefnogaeth i ailagor canol y dref yn y modd hwn.

O'r herwydd, a wnaiff Aelod y Cabinet dros Adfywio gytuno ein bod ni fel cyngor yma i wasanaethu'r cyhoedd, i fod yn stiwardiaid da ar y pwrs cyhoeddus ac yma i galonogi a chynnal canol ein trefi nid eu rhwystro.
Felly a wnaiff Aelod y Cabinet dros Adfywio roi gwybodaeth i mi am eu cynlluniau i wneud Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn hygyrch i bawb?

**Ymateb**

Yn dilyn ymlaen o Brif Gynllun Adfywio Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr 2021, mae ffocws parhaus ar gyflawni rôl Pen-y-bont ar Ogwr fel cyrchfan a chanolfan ar gyfer manwerthu, byw, cyflogaeth, addysg a threftadaeth. Er mwyn gwneud hyn yn bosibl, gofynnwyd i'r Cyngor, dros nifer o flynyddoedd, ystyried dad-bedestreiddio fel ateb posibl i gynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol y dref, cefnogi'r economi leol a chreu canol tref mwy bywiog a chynhwysol ar gyfer trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Rydym yn wir wedi cwblhau ymarferiadau dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn gweld sut y gellid gwella mynediad ond, heb os nac oni bai, rydym wedi wynebu rhwystrau ar hyd y ffordd, nid lleiaf y newid ym mholisïau Llywodraeth Cymru ar Gynllunio a Theithio Llesol, ond hefyd moratoriwm Llywodraeth y DU ar Ddadbedestreiddio. a chynlluniau teithio llesol i ganiatáu adolygiad o bolisi cenedlaethol.

Mae'r Gwerthusiad o Ddewisiadau Hygyrchedd Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar well mynediad i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr ac yn cynnig tri dewis posibl i fynd i'r afael â'r mater, gan anelu at gydbwyso blaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd ar gyfer yr ystod amrywiol o randdeiliaid yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr. Er bod astudiaethau o'r blaen wedi awgrymu dewisiadau ar gyfer dadbedestreiddio, mae'r gwaith hwn yn ailedrych ar hygyrchedd canol y dref gan gynnwys adolygiad o bolisïau cynllunio cyfredol megis Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, Chwefror 2021) a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd, ynghyd ag adolygiad o'r astudiaethau mynediad a gynhaliwyd o'r blaen.

Mae gwerthusiad wedi ei gynnal hefyd o'r gorchymyn rheoleiddio traffig presennol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r dull gweithredu sydd ei angen i wella mynediad i ganol y dref, gan gynnwys rheoli bolardiau electronig, darpariaeth parcio ac ymchwilio i ddewis clicio a chasglu a chlicio a danfon.

Rydym yn awr yn gweithio gydag arbenigwyr yn Atkins i brofi a chwestiynu hyfywedd y tri dewis yn drylwyr a phenderfynu ar y dewis gorau y gellir ei symud ymlaen i'r cam cyflawni, gan sicrhau bod prosiectau yn gyfreithiol ac yn dechnegol ymarferol, yn ogystal â bod modd eu cyfiawnhau yn economaidd a'u bod yn werth buddsoddiad pellach. Er mwyn penderfynu ar y dewis gorau, cynhelir ymgynghoriad helaeth pellach gydag adrannau perthnasol CBSP, cyrff statudol ac aelodau etholedig.

Caiff y dewisiadau hefyd eu gwerthuso gan ddefnyddio fframwaith asesu gyda meini prawf yn erbyn polisi a deddfwriaeth allweddol, fydd yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021
- Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Trafnidiaeth Lleol CBSP
- Cynllun Lles Corfforaethol CBSP
- Cynllun Lles Bwrdd Iechyd y Cyhoedd

Fel rhan o'r cam hwn, caiff ystyriaethau dylunio cynhwysol eu nodi a'u gwerthuso, dylunio trefol a thir cyhoeddus, dadansoddiad o alw'r farchnad, cynllun priffyrdd gan gynnwys rhediadau traciau a gofynion gwelededd, ystyriaethau gweithredu, gofynion GRhT a chofrestr risg.

Mae'n rhaid i ni hefyd ystyried cynllun y gall yr awdurdod ei gyflawni'n ariannol a chydnabod bod y tirwedd ariannu wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf ac, fel y mae gwaith blaenorol ar y prosiect hwn wedi nodi, y byddai angen cyllid grant allanol sylweddol ar gynllun cynhwysfawr i sicrhau y gellid ei gyflawni.

Rhagwelir y bydd yr adroddiad hwn wedi'i gwblhau erbyn Haf 2023, gan ganiatáu i'r Awdurdod symud ymlaen a chyflawni cynnig y cytunwyd arno, fydd yn bodloni anghenion a dyheadau defnyddwyr allweddol ac a fydd yn galluogi canol y dref i ffynnu a chyflawni ei botensial llawn.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Wood**

Dywedwyd wrth fasnachwyr am y wybodaeth hon mewn cyfarfod Masnachwyr nifer o wythnosau yn ôl, ac eto dim ond yn awr y mae Aelodau etholedig sy'n ymwneud â'r maes hwn yn cael gwybod, ar ôl cwestiwn ysgrifenedig i'r Cyngor. Mae 7 mlynedd wedi mynd heibio ers yr ymgynghoriad, felly onid yw'n hen bryd yn awr gwneud yr hyn y mae trigolion ei eisiau a'r hyn y mae trefi eraill wedi'i wneud mewn mannau eraill yng Nghymru. Felly, pa sicrwydd roddwch chi i mi y bydd y prosiect hwn yn mynd yn ei flaen, o ystyried faint o bobl sydd wedi gofyn am hyn ac a oes modd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynghorwyr am ddigwyddiadau, wrth i faterion fynd rhagddynt.

**Ymateb**

Mae'r ymateb cynhwysfawr yn nodi'r sefyllfa bresennol, er y byddwn yn ailadrodd bod nifer o bethau wedi newid ers 2016, ac nid lleiaf Polisi Cynllunio Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi ei gwneud yn fwy anodd ond nid yn amhosibl gwneud yr hyn a arolygwyd yn wreiddiol. Mae'r ymrwymiad yn dal i fodoli i archwilio dewisiadau posibl, er bod hefyd yr un pryd faterion yn ymwneud â fforddiadwyedd. Felly, yn ddi-os, ar sail sgyrsiau gyda Llywodraeth Cymru, mae hi bellach yn llawer mwy anodd sicrhau cyllid allanol ar gyfer y math hwn o gynnig nag yr oedd 7 mlynedd yn ôl. Mae'r dewisiadau felly'n ymwneud â'r hyn y mae modd ei gyflawni a'r hyn sy'n fforddiadwy. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau wrth i faterion symud ymlaen mewn perthynas â'r tri phrif ddewis yn ogystal â cheisio sicrhau ein bod yn cynnal amgylchedd diogel hefyd i'r rhai sy'n byw yn yr ardal.

**Ail gwestiwn atodol gan y Cynghorydd Steven Bletsoe**

Hoffwn ddweud wrth y Cabinet bod person oedrannus wedi mynd yn sâl y penwythnos hwn tra mewn bwyty yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr. Ffoniwyd am ambiwlans a chadarnhawyd y byddai hyn yn cymryd 8 awr i gyrraedd, felly awgrymwyd y dylai aelod o'r teulu neu ffrind fynd ag ef i'r ysbyty. Wedi hynny, methodd gweithredwyr y bolardiau â chaniatáu mynediad i'r cludiant i ganol y dref i nôl yr unigolyn, oedd yn amlwg yn rhoi iechyd y person mewn perygl difrifol. Gan mai dyma'r eildro i hyn ddigwydd yn y 3 mis

diwethaf yng nghanol y dref, a gaf ymrwymiad gan arweinwyr gwleidyddol yr awdurdod yr ymdrinnir â'r mater hwn cyn i sefyllfa ddifrifol fel hon droi'n un drychinebus.

**Ymateb (gan yr Arweinydd)**

Ni chefais wybod am hyn, ond byddaf yn sicrhau fy mod yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf yn unol â hynny ac yna'n ei godi gyda'r adran berthnasol yn CBS Pen-y-bont ar Ogwr a Heddlu De Cymru, fel mater o ddiogelwch cymunedol.

**Y Cynghorydd Alex Williams i Aelod y Cabinet - Cymunedau**

A wnaiff Aelod y Cabinet - Cymunedau ddatganiad ynghylch y cymorthdaliadau y mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn eu darparu ar hyn o bryd i gefnogi'r llwybrau bysiau hynny yr ystyriwyd eu bod yn fasnachol anhyfyw; amlinellu pa ystyriaeth a roddwyd i leihau'r cymorthdaliadau hyn neu eu tynnu'n ôl yn llwyr; a pha ddadansoddiad sydd wedi cael ei wneud o ganlyniadau posibl gostyngiad o'r fath neu dynnu cymorthdaliadau'n ôl i bobl o fewn y cymunedau oedd gynt yn derbyn llwybrau cymorthdaledig?

**Ymateb**

Mae'r cyllid presennol ar gyfer gwasanaethau bysiau y bernir nad ydynt yn fasnachol hyfyw yn dod drwy'r Grant Cymorth Gwasanaethau Bysiau (BSSG), a ddyrennir ar gyfer gwasanaethau rhanbarthol a chludiant cymunedol gan Lywodraeth Cymru. Yn achos CBSP, y gwasanaethau bws a gefnogir ar hyn o bryd yw:

Gwasanaeth 65 – Pen-y-bont ar Ogwr i Donysguboriau drwy Heol y Cyw (dydd Llun – dydd Sadwrn)
Gwasanaeth 70 – Pen-y-bont ar Ogwr i'r Cymer drwy Faesteg (nos Lun – Nos Sadwrn)
Gwasanaeth X2 – Caerdydd i Borthcawl drwy Ben-y-bont ar Ogwr (nos Lun – nos Sadwrn)

Y dyraniad a ddarparwyd i CBS Pen-y-bont ar Ogwr gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23 oedd £399,464, a dyfarnwyd £95,000 ohono i Gludiant Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr gyda'r gweddill i'w wario ar rwydwaith bysiau strategol craidd y rhanbarth a gwasanaethau cysylltiedig gan gynnwys taliadau trawsffiniol i awdurdodau eraill.

Roedd dewis arall a nodwyd yn ymwneud â Chludiant Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr, sydd â darpariaeth 'Town Rider' cofrestredig sy'n gweithredu drwy Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gyfan, sydd yn ei dro yn darparu gwasanaeth gwahanol i'r trigolion hynny nad oedd ganddynt fynediad at wasanaeth bws rheolaidd mwyach.

Er bod y cyllid BSSG a ddisgrifir uchod yn parhau yn ei le, mae cyllid y Cynllun Brys ar gyfer Sector y Bysiau (BES) hefyd yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru fel cynllun cymorth ôl-bandemig ar gyfer y diwydiant. Cafwyd nifer o fersiynau o gyllid BES ac ni fwriedir iddo barhau am gyfnod diddiwedd. Mae swyddogion ac aelodau'n ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Gweithredwyr Bysiau i ddeall y goblygiadau a'r ffordd bosibl ymlaen i'r holl wasanaethau (nid yn unig y rhai oedd yn derbyn cymhorthdal yn flaenorol) ar ôl y fformat presennol o gyllid BES.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Williams**

Diolch i Aelod y Cabinet am ei ymateb pan soniodd am gefnogaeth i Lwybr 65, sy'n gweithredu o Ben-y-bont ar Ogwr i Donysguboriau drwy Heol-y-Cyw, y Ward yr wyf i yn ei chynrychioli. Soniodd yr Arweinydd yn ei gyhoeddiadau am y Cynllun Brys ar gyfer Sector y Bysiau a bydd yr Aelodau'n gwybod bod Arweinwyr y Cyngor wedi ysgrifennu'n ddiweddar at Lywodraeth Cymru yn nodi bod gwasanaethau bysiau lleol yn bwysig i bobl

hŷn ac iau, pobl ag anableddau, a rhai o aelwydydd incwm isel ac y byddai colli gwasanaethau bws yn effeithio ar les unigolion drwy gyfyngu ar fynediad at addysg, gwasanaethau economaidd, iechyd a hamdden, yn ogystal â chysylltiadau teuluol a chymdeithasol. Fodd bynnag, dechreuodd y weinyddiaeth bresennol y broses hon a elwir yn rhesymoli gwasanaethau bysiau drwy dynnu grwpiau â chymhorthdal yn ôl yn ystod eu tymor diwethaf yn y swydd, yn 2017 a 2019. Mae hyn wedi arwain at effaith araf, gyson o dynnu cymorthdaliadau yn ôl o gefnogi gwasanaethau bysiau craidd, sy'n cysylltu cymunedau ynysig. Yn ddiweddar buom yn trafod ein Strategaeth Net 2030 a chyfeiriwyd at system drafnidiaeth gyhoeddus effeithiol fel ffactor a fyddai â rôl hanfodol i'w chwarae. Yn ddiweddar, rhoddodd y Cabinet ganiatâd i Metrolink a therfynfa fysiau gwerth miliynau o bunnoedd ar gyfer Porthcawl ac yn awr maent mewn perygl o fod heb fysiau i fynd yno. Mewn cymunedau anghysbell fel Heol-y-Cyw a'n lleoliadau yn y cymoedd heb unrhyw lwybrau Teithio Llesol, mae pobl yn dibynnu ar wasanaethau bysiau i aros yn gysylltiedig â chymunedau eraill. At hynny, os ydym am annog pobl i ddod allan o'u ceir, mae angen inni gynnal gwasanaeth bysiau lleol rheolaidd a dibynadwy i gyfrannu at ein nod o ddod yn awdurdod lleol sero net. Felly a all Aelod y Cabinet ymrwymo heddiw i CBS Pen-y-bont ar Ogwr ddod o hyd i'r cyllid trosiannol er mwyn rhoi cymhorthdal i'r rhwydwaith bysiau craidd sy'n gwasanaethu ein trigolion mwyaf ynysig.

**Ymateb**

Roedd y toriadau y mae'r Cynghorydd yn cyfeirio atynt uchod yn ganlyniad i doriadau llymder y Llywodraeth Ganolog a osodwyd ar awdurdodau lleol megis CBSP, a barodd i'r Awdurdod orfod dod o hyd i £70 miliwn ar y cyd mewn toriadau cyllidebol yn y blynyddoedd diwethaf. Felly gorfodwyd toriadau i wasanaethau bysiau ar y Cyngor fel rhan o'r arbedion ehangach hyn. Bu'n rhaid gwneud y rhain flwyddyn ar ôl blwyddyn, er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys. Mae'n amhosibl felly gwneud ymrwymiad ariannol cywir i weithrediad gwasanaethau bysiau yn y dyfodol ar hyn o bryd, gan na wyddom y gost fydd yn ymwneud â llwybrau â chymhorthdal yn dilyn y cymorthdaliadau sydd yn eu lle ar hyn o bryd.

Ni all pob gwasanaeth yn y Fwrdeistref Sirol weithredu'n fasnachol, felly ar y sail honno, mae angen cymhorthdal i ryw raddau ar bob gwasanaeth. Rydym yn trafod dewisiadau posibl yn y dyfodol o ran gwasanaethau bysiau gyda'r cwmnïau gweithredu amrywiol a Llywodraeth Cymru/Gweinidogion hefyd. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a bydd yn gwneud popeth o fewn ei allu i gyflawni ymrwymiad o'r fath. Fodd bynnag, bydd hyn yn gofyn am gyllid parhaus gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr a chyllid Llywodraeth Cymru, nad yw ar gael ar hyn o bryd ar ôl mis Gorffennaf eleni. Felly, ni allwn roi ymrwymiad ariannol tebyg i gais yr Aelod ar hyn o bryd, er y gallwn roi sicrwydd o ran parhad gwasanaethau bysiau o fewn y Fwrdeistref Sirol.

**Ail gwestiwn atodol gan y Cynghorydd Heidi Bennett**

Ategaf rai o'r sylwadau a fynegwyd gan y siaradwr blaenorol. Mae fy Ward i ym Mhen-y-fai wedi bod heb wasanaeth bws ers mis Gorffennaf 2022 ac mae hynny wedi cael effaith negyddol ar les rhai preswylwyr, gan adael llawer yn teimlo'n unig ac yn methu â chael mynediad at wasanaethau allweddol, sy'n effeithio'n arbennig ar ein poblogaeth oedrannus. A all Aelod y Cabinet egluro beth yw ymateb yr Awdurdod Lleol mewn perthynas â darparu trafnidiaeth gyhoeddus a beth sy'n cael ei wneud yn awr i geisio darparu ateb cynaliadwy.

**Ymateb**

Nid yw trafnidiaeth gyhoeddus yn wasanaeth statudol y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i awdurdod lleol ei ddarparu. Yr hyn sydd gennym yw rhwydwaith o gwmnïau preifat sy'n gweithredu gwasanaethau bysiau. Er y gellid dadlau dros i CBS Pen-y-bont ar Ogwr ddarparu gwasanaethau o'r fath, nid oes ganddynt y grym i'w darparu. Fodd bynnag, gellid dadlau hefyd y dylai'r Cyngor gefnogi darparu'r gwasanaethau hyn am resymau moesol ac economaidd, er mwyn cefnogi cymunedau lleol a hybu busnes yn ein trefi. Gwaethygodd materion yn ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus lawer iawn o flynyddoedd yn ôl pan ddadreoleiddiwyd bysiau. Serch hynny, rydym yn parhau i wneud ein gorau i gyfrannu at wasanaethau bws lleol i gynorthwyo trigolion ac ymwelwyr â'r Fwrdeistref Sirol, er mwyn sicrhau, hyd eithaf ein gallu, fod gennym rwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy yn y dyfodol.

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Tim Thomas i Aelod y Cabinet**

Beth mae Aelod y Cabinet yn ei wneud i sicrhau bod ffyrdd a phriffyrdd CBSP yn hygyrch i'r henoed a'r anabl?

**Ymateb**

Mae mynediad a diogelwch ar gyfer holl ddefnyddwyr y priffyrdd yn bwysig, ac felly mae'n cael ei ystyried ar gyfer pob datblygiad newydd yn y safonau dylunio sy'n cael eu cymhwyso o'r cychwyn cyntaf, gyda'r awdurdod priffyrdd fel ymgynghorai yn y broses gynllunio, yn gwneud argymhellion mewn perthynas ag amodau i'w gosod ar ddatblygiadau, gan gynnwys gwelliannau/cynnwys seilwaith cerddwyr.

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn gweld buddsoddiad sylweddol yn y rhwydwaith priffyrdd presennol yn ogystal â dod â datblygiadau newydd fydd yn canolbwyntio ar ddarparu llwybrau teithio llesol diogel sydd wedi'u dylunio'n dda a hygyrchedd hawdd at wasanaethau yn unol ag egwyddorion cadarn creu lleoedd.

Unwaith y bydd cais wedi cael ei gymeradwyo a datblygwyr wedi cytuno ar gytundeb ar gyfer mabwysiadu eu datblygiad, caiff dyluniadau eu gwirio i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag amodau a safonau dylunio; gall hyn gynnwys palmentydd cyffyrddol ar gyfer cyfeirio'r rhai â nam ar eu golwg, croesfannau dan reolaeth golau gyda nodweddion fel dangosyddion clywadwy/cyffyrddadwy, croesfannau is i gerddwyr, llochesi i gerddwyr, gan gynnwys mynediad â ramp. Gellir archwilio diogelwch dyluniadau fel ystyriaeth bellach o gydymffurfio â safonau perthnasol.

Ar gyfer seilwaith priffyrdd presennol, lle mae gwaith cynnal a chadw cyfalaf megis adnewyddu llwybrau troed neu gynhwysiant llwybrau teithio llesol, mae ystyriaeth i gyflwyno cyrbau isel a allai fod o fudd nid yn unig i bobl â phroblemau symudedd ond hefyd i ddefnyddwyr eraill (cadeiriau gwthio). Yn achos teithio llesol, efallai y bydd modd lledu'r llwybr troed presennol, neu greu llwybr troed/llwybr beicio newydd a allai eto fod o fudd i bob defnyddiwr. Mae gwelliannau o'r fath yn cysylltu â mentrau eraill megis cyrbau uwch mewn arosfannau bysiau sydd wedi cael eu gosod i ganiatáu mynediad haws i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a'r rhai â phroblemau symudedd. Darperir cymorth hefyd trwy deithio rhatach i bobl dros 60 oed ac ymgeiswyr sy'n gymwys ar sail anabledd.

I'r rhai sy'n derbyn 'bathodyn glas', mae yna leoedd a ddarperir ar y stryd ac oddi arni sydd wedi'u cadw/gorfodi ar gyfer y defnyddwyr penodol hynny, yn ogystal â chaniatáu parcio mewn lleoliadau eraill yn amodol ar yr arwyddion a'r canllawiau cyffredinol.

Er bod llawer wedi cael ei gyflawni, mae llawer o'r rhwydwaith yn parhau i gael ei wella, ac mae gwella a chynnal a chadw i gyd yn amodol ar y cyllidebau a'r adnoddau presennol sydd ar gael.

Rhestrir isod enghraifft o'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig:

Rhif 201 Lleoliadau lle mae cyrbau wedi cael eu newid i hwyluso gwell mynediad i gerddwyr (a ariannwyd gan Teithio Llesol LlC);
Rhif 50 Lleoliadau lle mae cyrbau wedi cael eu newid i hwyluso gwell mynediad i gerddwyr (a ariannwyd fel rhan o adnewyddu llwybr troed stryd gyfan a ariannwyd gan gyfalaf CBSP);
Rhif 11 Lleoliadau lle mae cyrbau isel newydd wedi cael eu cyflwyno ar eu pen eu hunain (a ariannwyd gan Gyfalaf BCBC);
Rhif 2 Lleoliadau lle mae cyrbau isel wedi cael eu cyflwyno fel rhan o ddatblygiadau newydd

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Thomas**

Aeth cyd-aelod Ward a minnau am dro yn ein hardal gydag etholwyr lleol, un ohonynt yn ddefnyddiwr cadair olwyn, i ddysgu am rai o'i phrofiadau. Yn codi o hyn, ysgrifennais adroddiad byr a'i gopïo i rai o'r Uwch Swyddogion a'r Aelodau perthnasol, nad wyf wedi cael ymateb ganddynt eto ond gobeithio y gwnaf yn fuan. Roedd yn braf gweld bod hygyrchedd wedi cael ei ystyried ar gyfer adeiladau newydd drwy'r system gynllunio ac mewn perthynas â Llwybrau Teithio Llesol hefyd. Mae fy nghwestiwn yn eithaf addas, o ystyried datganiad yr Arweinydd am yr ymgynghoriad ynghylch parcio ar balmentydd. Mae gennyf gryn ddiddordeb mewn gwybod, pa archwiliadau y mae'r awdurdod lleol wedi eu cynnal, er mwyn edrych ar briodoldeb dodrefn stryd presennol, i weld a yw'n briodol a heb fod wedi darfod, i ddibenion hygyrchedd i'r anabl a'r henoed, gan fod yr Arweinydd wedi dyfynnu cerdded ar strydoedd yn yr ymgynghoriad a chredaf fod hon hefyd yn un o nodau ymgyrch Strydoedd Cerdded, yn ogystal â sicrhau bod dodrefn stryd o'r fath ar ein priffyrdd yn briodol.

**Ymateb**

Bydd yn rhaid i mi ddod yn ôl at y Cynghorydd o ran cynnal archwiliadau ar ddodrefn stryd. Fodd bynnag, mae Arolygwyr Priffyrdd yn cynnal archwiliadau o'r rhwydwaith priffyrdd yn rheolaidd. Dof yn ôl at yr Aelodau ar y pwynt cyntaf uchod.

Gofynnodd Aelod y Cabinet – Cymunedau i'r Aelod a allai ailanfon ei adroddiad drwodd ato ef fel y gallai fynd i'r afael â'r pwyntiau oedd ynddo. Os oedd unrhyw faterion neu bryderon penodol yn debyg i'r hyn a gynhwyswyd yn ei gwestiwn o fewn ei Ward, yna gofynnodd iddo rannu manylion y rhain gan gynnwys mewn perthynas â darparu mannau parcio hygyrch i'r anabl, ac yn y blaen, er y byddai materion ehangach hefyd yn cael eu hystyried o fewn y Fwrdeistref Sirol yn ei chyfanrwydd. Rwy'n gobeithio, pan ddarperir dodrefn stryd, y caiff y rhain eu hasesu ar gyfer yr ardal benodol y cânt eu darparu ynddi, er mwyn peidio â datrys un broblem yn unig tra'n creu un arall o bosibl. Pwysleisiodd fod CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwymo i'r henoed a'r anabl o ran hygyrchedd i barcio ceir ar y priffyrdd. Ychwanegodd ein bod yn ymwybodol o geisiadau am ddodrefn stryd oedd wedi cael eu gwrthod, oherwydd y gallai darparu'r rhain mewn mannau penodol arwain at broblem arall o natur wahanol.

**Ail gwestiwn atodol gan y Cynghorydd Melanie Evans**

Rwyf yn nodi yn yr ymateb uchod fod yna 264 o leoliadau y cyfeiriwyd atynt lle bu newidiadau i'r cwrbyn. A wnewch chi ymhelaethu ar ble mae'r rhain, gan gynnwys cyfeiriad at y cyrbau isel hynny

**Ymateb**

Mae 201 o leoliadau ar gyfer gwaith cyrbau drwy Fenter Teithio Llesol Llywodraeth Cymru ac mae'r mwyafrif o'r rhain yn ardal Porthcawl. Mae yna 50 o leoliadau mewn 4 ardal lle bu gweithrediadau/addasiadau cyrbau, a wnaed er mwyn gwella mynediad i gerddwyr ac 11 lleoliad lle gwnaed gwelliannau drwy Gyllid Cyfalaf CBSP. Rhoddodd enghreifftiau o ble roedd y gwaith hwn wedi digwydd yn y Fwrdeistref Sirol, er budd yr Aelodau.

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Ian Williams i Aelod y Cabinet – Adfywio**

A all Aelod y Cabinet - Adfywio, os gwelwch yn dda, roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am ba fesurau sy'n cael eu cymryd i adfer yr adeiladau adfeiliedig niferus yng nghanol ein tref a beth yw'r amserlen ar gyfer y gwaith adfer hwn?

**Ymateb**

Mae amrywiaeth o resymau pam mae adeiladau'n dadfeilio, a thros y blynyddoedd mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi rhoi pwyslais ac adnoddau sylweddol i raglenni sydd wedi cynnig cymorth a chyllid i adnewyddu ac adfywio adeiladau gwag a rhai sy'n cael eu tanddefnyddio yng nghanol ein trefi.

Bu cynllun y Fenter Treftadaeth Treflun ar waith rhwng 2002 a 2020 a thros yr amser hwnnw dyfarnwyd mwy na £5 miliwn i 66 eiddo ar gyfer gwneud gwaith adfer mawr. Drwy'r cynllun hwn cafodd rhai o'n prosiectau canol tref mwyaf llwyddiannus eu cwblhau, gan gynnwys cynllun Elder Yard, 2 Stryd Caroline a hen Dafarndy'r Victoria, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, adeilad yr Harlequin, adeiladau Jennings a, bron wedi ei gwblhau, 37 The Esplanade (yr Apollo gynt) ym Mhorthcawl, i enwi dim ond rhai, lle mae gan bob un ohonynt fusnesau llewyrchus yn gweithredu ohonynt, ar sail buddsoddiad cyfalaf mawr gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Cadw.

Yn yr un modd, mae ein rhaglen Trawsnewid Trefi wedi buddsoddi cyllid mewn cynlluniau fel 11 Stryd Nolton Maesteg, ac yn fwy diweddar Marble Steak House, oedd i gyd yn eiddo gwag oedd wedi dirywio o'r blaen ac sydd wedi cael eu trawsnewid drwy gymorth a chyllid. Dyfarnodd y rhaglen Trawsnewid Trefi £2,275 miliwn mewn grant yn ystod y tair blynedd diwethaf a bydd yn parhau i weithio gyda pherchnogion eiddo a busnesau i gynnig cymorth a chyllid sylweddol i eiddo eraill ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, Porthcawl a Maesteg yn y dyfodol.

Deallwn fod yna nifer o adeiladau heriol ar draws ein trefi lle mae amrywiaeth o anawsterau yn rhwystro galluogi gwaith adnewyddu cynhwysfawr, ac mae cael partner parod yn hanfodol i ganiatáu i hyn ddigwydd.

Mae rhai o'n heiddo mwyaf heriol yn dod o fewn ein cynllun gweithredu Eiddo Gwag diweddar. Mae'r cynllun, a ddatblygwyd ar y cyd â Llywodraeth Cymru, yn defnyddio dull mwy manwl o ddod o hyd i atebion i symud ymlaen â gwaith ar eiddo penodol. Y llynedd, cynhaliodd y Cabinet sesiwn hyfforddi gyda LlC i ddeall sut y gellid symud ymlaen â'r agenda hon, gan dderbyn bod y cynllun yn cynrychioli rhai o'r adeiladau mwyaf heriol, nad oes unrhyw ennill cyflym iddynt, a lle mae'r awdurdod wedi gwneud sawl ymgais o'r blaen i ymgysylltu â'r perchnogion.

O fewn y cynllun, mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau a gafodd flaenoriaeth yng nghanol ein trefi, ond nid yn gyfan gwbl ac maent yn cwmpasu eiddo masnachol/cymdeithasol a phreswyl.

Mae i'r cynllun 3 blaenoriaeth a chyfres o gamau gweithredu.

Yn gyntaf, nodi maint a lleoliad adeiladau masnachol a phreswyl a/neu eiddo gwag hirdymor sy'n cael effaith andwyol ar ardal neu gymuned leol.

Mae hyn yn cynnwys;

- Adolygu'r wybodaeth gyfredol sydd ar gael i CBS Pen-y-bont ar Ogwr o ffynonellau mewnol ac allanol er mwyn canfod data cefndir.
- Cynnal arolwg gweledol o ardaloedd canol trefi allweddol, gan nodi eiddo sydd ag effaith negyddol ar y strydlun neu'n cynnig cyfle ar gyfer prosiect adfywio.
- Blaenoriaethu cronfa ddata o adeiladau gan ddefnyddio meini prawf asesu risg sefydledig a ddefnyddir ar gyfer cartrefi gwag.

Yn ail, ein nod yw codi ymwybyddiaeth ymhlith perchnogion adeiladau, busnesau lleol a gwerthwyr tai, aelodau lleol. Mae hyn yn golygu;

- Cadw mynegai o eiddo gwag yng nghanol trefi i ddibenion marchnata.
- Cyfeirio perchnogion eiddo gwag ac adfeiliedig at benseiri / contractwyr lleol a all eu cynorthwyo gyda'r gwaith.
- Darparu cyngor ar y cymorth ariannol sydd ar gael i berchnogion a thrwy werthwyr tai.
- Ymgysylltu â pherchnogion eiddo preswyl i'w hannog i adfer defnydd eu heiddo drwy roi cyngor, cefnogaeth ac anogaeth.
- Edrych i mewn i'r cynnig o gyngor cwmpasu cychwynnol am ddim cyn ymgeisio, paratoi nodyn cyngor datblygu ar gyfer adeiladau gwag.

Yn drydydd, mae angen inni ystyried defnyddio camau gorfodi gan ddefnyddio'r ystod lawn o ddewisiadau deddfwriaethol i ymdrin ag eiddo sydd wedi adfeilio neu mewn cyflwr gwael lle na ellir cael canlyniad drwy gydweithredu. Ni chymerir camau gorfodi yn ysgafn, ac mae angen ystyried y broses gyfreithiol yn ofalus, yn ddelfrydol, fel rhan o ddull perswâd ynghyd â bygythiad.

Cefnogir yr adeiladau anoddaf gan Weithgor Eiddo Gwag. Mae angen ymagwedd awdurdod cyfan at yr adeiladau hyn, ac ymrwymiad ariannol i'w dilyn. Mae'r grŵp hwn wedi edrych yn bennaf ar eiddo preswyl ond yn fwy diweddar wedi ystyried gweithredu ar eiddo masnachol. Ar gyfer yr adeiladau domestig y mae llawer ohonynt yn ein trefi, rydym yn parhau i weithio gyda pherchnogion yr eiddo hyn ac mae nifer o adeiladau gwag hirdymor bellach wedi cael eu gwerthu i berchnogion newydd neu maent i gael eu marchnata ar gyfer eu gwerthu. Lle bo angen, cymerir camau gorfodi i fynd i'r afael â materion iechyd cyhoeddus yn yr eiddo. Mae'r Gweithgor yn cynnwys cynghorwyr o feysydd Cynllunio, Adfywio, Cadwraeth, Gwasanaethau Rheoleiddio Tai a Rennir, Cyfreithiol a Chyllid.

Ar hyn o bryd mae 20 o adeiladau ar y Rhestr ac mae camau gweithredu gan gynnwys trafodaethau gyda pherchnogion, a chamau gorfodi lle bo angen, wedi symud ymlaen yn erbyn 8 o'r rhain.

Yn ogystal â'r gwaith ar eiddo a nodwyd, rydym hefyd wedi cynnal arolwg diweddar o eglwysi a chapeli gwag sydd mewn perygl. Roedd y rhain wedi'u lleoli'n bennaf ar draws ardaloedd masnachol y cymoedd, ond rydym yn gobeithio ymestyn hynny i drefi eraill i edrych ar ddefnyddwyr terfynol a phartneriaid yn y dyfodol pan fydd cyllid ar gael.

Rydym hefyd yn bwriadu cwblhau adolygiad o'r holl eiddo gwag ar draws canol tref Pen-y-bont ar Ogwr i nodi'r hyn y mae perchnogion a deiliaid yn ei weld fel yr hyn sy'n rhwystro'r eiddo rhag cael ei feddiannu, er mwyn ein galluogi i edrych ar ddull o ymgysylltu a chynnig cymorth mwy pwrpasol. Lle mae adnewyddu a buddsoddi cyfalaf yn brif rwystr, gallwn sicrhau bod y cymorth a'r cyllid cywir ar gael.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Williams**

Rwyf yn meddwl bod rhywfaint o'r ymateb yn deillio o gyfathrebiad cyffredinol oherwydd mai â chanol tref Pen-y-bont ar Ogwr yn benodol yr oedd fy nghwestiwn yn ymwneud a chyflwr adfeiliedig llawer gormod o'r adeiladau yng nghanol y dref. Rwyf yn cyfeirio'n benodol at y Ranch yn Stryd Nolton, sy'n beryglus ac yn ddolur i'r llygad ac sydd wedi golygu bod ffens o gwmpas y palmant yno ers bron i 3 blynedd. Mae hefyd wedi cael effaith sylweddol ar drigolion cyfagos, nad ydynt yn gallu gwerthu eu cartrefi oherwydd cyflwr gwarthus yr adeilad hwn. Yr eiddo arall dan sylw yw Rhif 2 Heol Ewenni sef un o'r adeiladau cyntaf y mae pobl yn eu gweld wrth gyrraedd canol ein tref o Heol Ewenni. Mae'r eiddo hwn wedi bod yn wag ers 35 mlynedd ac nid oes dim wedi cael ei wneud gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr i'w wneud yn bosibl byw ynddo. Gallwn hefyd grybwyll yr York and Monroes, sef yr adeiladau cyntaf a welir gan bobl wrth ddod i mewn i'r dref o'r Orsaf Fysiau. Pryd bydd y Cyngor yn ystyried defnyddio Gorchmynion Prynu Gorfodol (GPG), i gymryd meddiant o'r adeiladau hyn, dull gweithredu sydd wedi cael ei ddefnyddio ym Mhorthcawl.

**Ymateb**

Mae materion cyfreithiol ar y gweill gyda pherchennog safle'r Ranch, sy'n ein hatal rhag trafod y safle hwn mewn Fforwm agored. Rwyf yn gwybod bod nifer o adeiladau ar draws y Fwrdeistref Sirol y mae angen eu hadnewyddu a'u hadfer i safon byw ac, i gefnogi hyn, mae gennym Gynllun Gweithredu ar Eiddo Gwag a ddatblygwyd gennym y llynedd gyda Llywodraeth Cymru a bydd hwn yn cael ei ddiweddaru a'i adolygu yn ystod cyfnod yr haf sydd i ddod. Ychwanegodd y Swyddog Monitro, lle'r oedd achosion cyfreithiol yn mynd rhagddynt mewn perthynas ag eiddo, gan gynnwys y rhai y cyfeiriodd y Cynghorydd Williams atynt, na ellid trafod manylion y rhain mewn Fforwm agored fel y Cyngor. Fodd bynnag, pe bai unrhyw aelod yn dymuno cael gwybodaeth am eiddo penodol, er enghraifft, y rhai sydd wedi eu lleoli yn ei Ward, yna gallai fynd at y Swyddog perthnasol y tu allan i'r cyfarfod, lle byddai modd rhannu rhywfaint o wybodaeth fanwl mewn perthynas â'r rhain ar sail gyfrinachol.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd F Bletsoe**

Mae'n dda clywed bod prosesau ar waith y gellir eu defnyddio fel yn yr enghreifftiau heddiw. Fodd bynnag, rwyf yn ymwybodol bod nifer sylweddol o adeiladau sydd angen eu hatgyweirio yn nhref Pen-y-bont ar Ogwr, nad ydynt wedi bod yn destun prosesau o'r fath ac, oherwydd hyn, mae problem gyda'r dref yn edrych fel pe bai'n dirywio, yn enwedig o ystyried bod yr adeiladau hyn yn aml yn cael eu gadael i waethygu dros nifer o flynyddoedd. Felly, a fyddech cystal â gwneud rhywfaint o gynnydd yma gyda gwaith adfer o ryw fath neu'i gilydd, er mwyn i Ben-y-bont ar Ogwr fedru edrych yn well.

**Ymateb**

Rwyf yn cytuno â'r hyn sydd wedi cael ei ddweud a gallwn weithio gyda Swyddogion i symud ymlaen â gwaith gwella ar rai o'r adeiladau hyn, lle mae'r perchennog neu'r landlord ac yn y blaen yn fodlon gweithio gyda'r Cyngor i'r diben hwn. Mae'r Cyngor yn cynnig grantiau lle bo'n berthnasol, i gynorthwyo perchnogion eiddo i wella'r adeiladau adfeiliedig hyn drwy wneud gwaith adnewyddu. Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd, mewn perthynas â Gorchmynion Prynu Gorfodol (GPG), er y gallai'r Cyngor mewn rhai sefyllfaoedd fynd ar drywydd y rhain, byddai hyn yn gostus ac felly roedd angen i'r aelodau benderfynu o ble y byddai'r gyllideb yn dod i gefnogi gwneud y Gorchmynion hyn. Dylid cadw mewn cof hefyd y gallai proses GPG gymryd nifer o flynyddoedd i'w chwblhau o'r dechrau i'r diwedd, yn enwedig os nad oedd perchennog yr eiddo yn hysbys neu os nad oedd yn dymuno cytuno i orchymyn prynu gorfodol gael ei wneud.

124. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:44